



Ysgol y Graig

# Polisi Trefnu Dosbarthiadau

(Fersiwn 1.1 & Medi 2019)

## **Am y polisi hwn**

Polisi ar gyfer meintiau dosbarthiadau a dosbarthu a threfnu disgyblion i ddosbarthiadau

Cefnogir y polisi hwn gan Adran Dysgu Gydol Oes AALI Ynys Môn.

**25/09/2019**

# Polisi Dosbarthiadau Cymysg Ysgol y Graig

## Rheoliadau Statudol

Mae'r polisi hwn yn sicrhau ein bod ni, ble gallwn ni, yn cadw at y rheoliadau a thelerau o gyllid grant statudol a nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau nad yw ein dosbarthiadau yn fwy na 30 o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

*"Mae'n statudol bod awdurdodau yn cyfyngu meintiau dosbarthiadau babanod (ac eithrio dosbarthiadau meithrin) i ddim mwy na 30 o ddisgyblion ac y mae'n arfer gorau i sicrhau nad yw maint dosbarthiadau iau yn fwy na 30 o ddisgyblion."*

Mae eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir yn "ddisgyblion a eithrir") a allai ganiatáu i faint dosbarth fod yn uwch na'r cyfyngiad o 30.

Mae'r disgyblion hyn:

(a) yn blant y mae eu datganiadau anghenion arbennig yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw

(b) yn blant y gwrthodwyd lle iddynt yn wreiddiol, ond wedyn y cynigwyd lle y tu allan i gylch derbyn arferol drwy gyfarwyddyd panel apêl, neu oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod fod camgymeriad wedi ei wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.

Rhif safonol yr ysgol yw 47 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, mae grwpiau blwyddyn ar adeg llunio'r polisi hwn yn amrywio rhwng 34 a 53. Golyga hyn ei bod yn amhosibl creu dau ddosbarth oed pur ym mhob grŵp blwyddyn oherwydd y cymysgedd cymhleth o grwpiau blwyddyn sydd yn yr ysgol.

## Y Broses

### Cam 1

Mae rhestr gyflawn ysgol yn cael ei pharatoi yn nhrefn dyddiad geni. Bydd pob disgybl arfaethedig ar gyfer Tymor yr Hydref yn cael ei gynnwys dros dro o'r niferoedd a ddarperir gan Adran Dysgu Gydol Oes Ynys Môn. Tynnir enwau disgyblion gyda dyddiad gadael hysbys oddi ar y rhestrau.

### Cam 2

Bydd y dosbarthiad dosbarthiadau yn cael ei ystyried ar sail nifer y disgyblion.

Mae'r ysgol eleni wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn trefnu dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen sy'n cynnwys llai na 30 o ddisgyblion. Bydd maint dosbarthiadau felly'n cael ei benderfynu yn unol â'r egwyddor bod yn rhaid i bob dosbarth, lle mae hynny'n bosibl, fod o dan 30 o ddisgyblion, gyda dosbarthiadau oed cymysg yn llai na dosbarthiadau oed pur os yn bosibl, er mwyn sicrhau cydbwysedd o niferoedd ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd y dosbarthiad niferoedd mewn dosbarth yn newid bob blwyddyn yn unol â niferoedd yn yr ysgol. Gyda niferoedd y plant ym mhob blwyddyn ysgol yn amrywio, gall fod angen gwahanol ddosbarthiadau oedran cymysg yn flynyddol.

Os yw'r dosbarthiadau yn cael eu trefnu gyda disgyblion oedran cymysg, bydd cymysgedd o blant yn cael eu trefnu yn ôl oedran a rhyw. Bydd y dyraniad cychwynnol yn sicrhau bod o leiaf chwech o blant o grŵp oedran unigol mewn dosbarth oedran cymysg. Ni ddylai unrhyw ddau fachgen neu ddwy ferch gael eu gwahanu oddi wrth eu grŵp blwyddyn.

Cyfnewidir hwy gyda'r nifer nesaf o'r rhyw arall. Mewn sefyllfa lle bydd chwech o blant yn codi yna byddant yn cael eu rhannu'n gyfartal o ran rhyw, 3/3, a chyfnewidir disgyblion er mwyn caniatáu hynny, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn golygu nad yw hyn yn bosibl. Mewn sefyllfa o'r fath gellid ystyried rhannu'r plant o ran rhyw ar batrwm 4/2.

### **Cam 3**

Mae'r rhestrau hyn yn cael eu dadansoddi gan staff, ac os ystyrir bod angen gwneud hynny, arferir disgrisiwn er budd gorau disgyblion, e.e. achosion ADY penodol, achosion diogelu, plant ag ymddygiad heriol, efeilliaid neu dripledi, plant mewn angen neu blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os yw asiantaethau proffesiynol a/neu athrawon o'r farn ei bod yn angenrheidiol amddiffyn anghenion addysgol a chymdeithasol y plant hyn, bydd disgyblion unigol yn cael eu trosglwyddo i mewn neu allan o grwpiau.

Ni fydd rhieni plant eraill yn cael yr hawl i ofyn am y rhesymeg y tu ôl i'r trosglwyddiadau hyn, er mwyn ddiogelu adnabyddiaeth, cyfrinachedd ac anghenion disgyblion unigol a'u teuluoedd. Rhennir yr wybodaeth hon gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethol os bydd angen drwy'r broses gwynion.

Yn ystod trydedd wythnos mis Mehefin fe hysbysir y disgyblion a'u rhieni pa ddosbarth y bydd y plant yn ei fynychu ym mis Medi.

### **Sut bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarth oedran cymysg?**

Pan fydd plant yn cael eu gosod mewn dosbarthiadau oedran cymysg, byddant yn dilyn yr un Cwricwlwm Cenedlaethol, drwy amrywiaeth o themâu ar lefel sy'n briodol i'w gallu unigol. Ni fydd plant yn cael eu "dal yn ôl" nac yn "ei chael yn anodd cadw i fyny" mewn unrhyw ddosbarth.

Mae'r holl athrawon wedi eu hyfforddi i weithio mewn dosbarthiadau gallu cymysg, boed mewn grŵp blwyddyn pur neu mewn dosbarth oedran cymysg.

Gwahaniaethir pob tasg i herio anghenion unigolion ble bynnag y maent ar eu continwwm dysgu.

Ym mhob dosbarth cynradd mae ystod eang o alluoedd a bydd pob plentyn yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd ar wahanol gyflymder, gan ymateb i amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau. Mae athrawon yn gwneud addasiadau i ateb gwahanol anghenion o fewn unrhyw ddosbarth, ac yn cynllunio yn unol â hynny.

Llunnir rhaglenni astudio a chynlluniau gwaith i gyd-fynd ag anghenion datblygu pob dysgwr mewn gwahanol grwpiau.

Darperir cyfleoedd ar gyfer plant o'r un grŵp blwyddyn i gymysgu gyda'i gilydd yn ystod amser egwyl, amser cinio, gweithgareddau ôl ysgol, cyngherddau a thimau chwaraeon, addoliad ar y cyd ac ati.

### **Cwynion ac Apeliadau**

Mae trefniant dosbarthiadau wedi ei ystyried yn ofalus i wella'r cyfle gorau o lwyddiant addysgol ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol. Cymhelliant uwch reolwyr yr ysgol wrth drefnu dosbarthiadau yw amddiffyn buddiannau addysgu a dysgu'r ysgol gyfan, gan wneud y penderfyniad gorau yn seiliedig ar fuddiannau'r holl ddisgyblion, nid un disgybl neu un grŵp blwyddyn yn benodol. Mae trefniant dosbarthiadau yn benderfyniad rheoli sydd wedi ei seilio ar y polisi hwn. Mae'r Corff Llywodraethol

wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r ysgol o ddydd i ddydd i'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli.

Ni all rhieni wrthod lleoliad eu plentyn mewn unrhyw ddsbarth yn Ysgol y Graig, ond os teimla rhiant nad yw'r ysgol wedi cadw at y Polisi Dosbarthiadau Cymysg, gallant rannu unrhyw bryder gyda'r Pennaeth fel man cychwyn, a fydd yn gallu rhoi sicrwydd i rieni o ran y dosbarth a bennwyd ar gyfer y plentyn.

Os ydynt yn parhau'n anfodlon, dylent godi eu pryderon yn unol â Pholisi Cwynion y Corff Llywodraethol. Mae manylion y polisi hwn ar gael ar wefan yr ysgol neu yn swyddfa'r ysgol.

Adolygir: Rhagfyr 2021